Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Gostwng Lefel Rhybudd – Gwasanaeth Sydd Angen Ei Wella'n Sylweddol

Ym mis Mai 2022, cafodd Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ei ddynodi gan AGIC yn Wasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol (SRSI).

Dyma'r meysydd a oedd yn peri pryder:

- Nid oedd argymhellion y cynllun Gwella a Sicrwydd Ar Unwaith wedi'u rhoi ar waith i safon dderbyniol ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt
- Roedd materion tebyg wedi cael eu codi yn ystod gweithgarwch sicrwydd blaenorol ac nid oedd gwelliannau digonol wedi'u gwneud
- Roedd mater yr oedd angen cymryd camau brys yn ei gylch wedi'i nodi drwy wybodaeth a gafwyd neu dystiolaeth a gasglwyd.

Roedd y dynodiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd ym mis Ionawr 2022, a arweiniodd at gynnal arolygiad dirybudd ar y safle ym mis Mai 2022. Cafodd nifer o bryderon am ddiogelwch cleifion eu nodi yn ystod y cyfnod hwn. Nododd arolygiad dirybudd dilynol ar y safle ym mis Tachwedd 2022 mai dim ond ychydig o welliant a oedd wedi'i wneud a bod yr Adran Achosion Brys yn dal i fod yn SRSI.

Ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn arolygiad dirybudd ar y safle arall ym mis Mai 2024, diddymwyd statws SRSI y gwasanaeth, gan fod AGIC yn fodlon bod y gwelliannau angenrheidiol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r pryderon mwyaf sylweddol a oedd wedi arwain at ddynodi'r Adran Achosion Brys yn SRSI yn 2022.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth wedi gwella ac mae'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith wedi mynd i'r afael â'r pryderon mwyaf sylweddol a nodwyd yn 2022. Fodd bynnag, erys heriau sylweddol ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithredu mewn amodau heriol iawn. Er nad yw rhai o'r heriau hyn yn unigryw i'r gwasanaeth hwn, mae camau y mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd o hyd i leihau effaith y rhain ar y gwasanaeth a sicrhau y defnyddir dull system gyfan cydlynol a chadarn o wella llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys. Bydd AGIC yn parhau i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r gwelliannau hyn.

Darllenwch ein hadroddiad arolygu diweddaraf ar Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd am ragor o wybodaeth.